



Polisi Preifatrwydd a Chwcis

Diweddarwyd: Awst 2019

Fersiwn: 3.1

Cynnwys

1. [Beth sydd yn y polisi yma?](#)
2. [Beth mae'r polisi yma yn ymdrin ag ef?](#)
3. [Sut ydych chi'n diogelu fy ngwybodaeth bersonol?](#)
4. [Pa fath o wybodaeth bersonol mae'r BBC yn ei chasglu amdanaf i?](#)
5. [Am ba mor hir fydd y BBC yn cadw fy ngwybodaeth bersonol?](#)
6. [Sut gallai'r BBC ddefnyddio fy ngwybodaeth bersonol?](#)
7. [Pryd fydd y BBC yn defnyddio fy ngwybodaeth i gysylltu â mi?](#)
8. [Fyddwch chi'n cysylltu â mi am resymau marchnata?](#)
9. [Pryd mae'r BBC yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol ag eraill?](#)
10. [Beth yw'r gwahaniaeth ar gyfer plant a rhai yn eu harddegau?](#)
11. [Ga i ddileu fy ngwybodaeth?](#)
12. [Beth yw fy hawliau?](#)
13. [Sut mae'r BBC yn defnyddio cwcis a thracio tebyg?](#)
14. [Sut fydda i'n cael gwybod am newidiadau i'r polisi yma?](#)
15. [Sut alla i gysylltu â'r BBC?](#)

1. Beth sydd yn y polisi yma?

Mae'r polisi yn dweud wrthoch chi:

- pa wybodaeth gallwn ei chasglu amdanoch chi
- sut gallwn ddefnyddio'r wybodaeth yna
- pryd gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth i gysylltu â chi
- pa wybodaeth amdanoch chi gallwn ei rhannu ag eraill
- eich dewisiadau am y wybodaeth bersonol rydych yn ei rhoi i ni

2. Beth mae'r polisi yma yn ymdrin ag ef?

Mae'r polisi yma yn ymdrin â'r [gwasanaethau](#) sy'n cael eu cynnig gan y BBC.

Ac weithiau mae'n ymdrin â gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan rannau o'n sefydliad sydd yn gweithredu fel cwmnïoedd ar wahân.

Fel:

[BBC World Service](#), [BBC Studios](#), [BBC Studioworks](#), BBC Global News, BBC Media Applications Technology, BBC World Service Trading ac elusennau'r BBC.

Ond dim ond pan mae'r gwasanaethau'n cyfeirio at y polisi yma neu'n eich hysbysu fod y polisi'n berthnasol.

Eich penderfyniad chi yw faint o fanylion rydych chi eisiau ei wybod. Mae gennym ni negeseuon egluro amserol sydd yn ymddangos pan rydyn ni'n gofyn i chi roi eich gwybodaeth bersonol. Ynghyd â beth sy'n y Polisi yma, gall wasanaeth gael rhybudd preifatrwydd byr. Yn y rhybudd preifatrwydd gallwch chi ddod o hyd i wybodaeth bwysig ynglŷn â beth rydyn ni yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol pan ydych chi'n defnyddio gwasanaeth. Ac mae yna fwy o fanylion [yma](#).

Beth sydd ddim yn cael ei ymdrin ag ef yn y polisi yma?

Ar adegau, mae ein gwasanaethau yn cael eu cysylltu â gwasanaethau cwmnioedd eraill, fel agor trac o BBC Sounds ar

wasanaeth cerddoriaeth arall fel Spotify. Mae gan y cwmnïoedd yma eu polisiau preifatrwydd a chwcis eu hunain, felly cofiwch fod y wybodaeth rydych yn ei rhoi iddyn nhw yn dilyn eu rheolau nhw, nid ein rhai ni.

Weithiau, gallwch gael mynediad i'n gwasanaethau o leoedd eraill, fel tudalen YouTube BBC Radio 1, neu ap BBC iPlayer o'ch teledu clyfar. Sicrhewch eich bod yn darllen eu polisi preifatrwydd nhw fel eich bod yn gwybod sut y byddan nhw'n defnyddio eich gwybodaeth.

3. Sut ydych chi'n diogelu fy ngwybodaeth bersonol?

Rydyn ni wedi ymrwymo i gadw eich gwybodaeth chi a'ch teulu yn ddiogel. Ac er mwyn gwneud hyn, rydyn ni'n cynllunio ein gwasanaethau, gyda'ch diogelwch mewn golwg. Yn ogystal, mae gennym ni dimoedd penodol er mwyn edrych ar ôl diogelwch a phreifatrwydd eich gwybodaeth.

Ar yr un pryd, ni all unrhyw wasanaeth fod yn gwbl ddiogel – os oes gennych chi unrhyw bryderon fod eich [cyfrif BBC](#) neu wybodaeth

bersonol mewn perygl, er enghraifft os oes posibil fod rhywun wedi cael gafael ar eich cyfrinair, [cysylltwch â ni](#) yn syth.

Ble rydyn ni'n storio eich gwybodaeth

Mae rhai cwmnïoedd sydd yn darparu gwasanaethau i ni yn cynnal eu gwasanaethau tu allan i'r DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA). Rydyn ni ond yn gadael i hynny ddigwydd os ydyn ni'n hapus gyda'u lefelau diogelwch. Cofiwch, pan rydych chi'n rhoi gwybodaeth bersonol i ni, gallai gael ei throsglwyddo, storio neu brosesu mewn lleoliad y tu allan i'r DU a'r EEA.

4. Pa fath o wybodaeth bersonol mae'r BBC yn ei chasglu amdanaf i?

Byddwn ni'n rhoi manylion ynglŷn â pham rydyn ni angen eich gwybodaeth bersonol a sut byddwn ni'n ei defnyddio cyn i chi ddechrau, oni bai ei bod hi'n amlwg.

a. Gwybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni

Efallai y byddwn ni'n gofyn i chi am eich enw a manylion cyswllt, eich dyddiad geni neu fanylion ariannol, yn dibynnu ar beth rydych chi'n

ei wneud. Os ydych chi'n ymgeisio i gymryd rhan mewn rhaglen ynglŷn â gwleidyddiaeth, er enghraifft, efallai y byddwn ni'n eich holi ynglŷn â'ch safbwyntiau gwleidyddol. Gallai gwybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni gynnwys gwybodaeth mewn [creadigaethau](#) rydych yn eu rhannu â ni, fel enwau'r bobl sy'n ymddangos ynddyn nhw.

Pan ydych chi'n cofrestru am gyfrif BBC, neu ddiweddarau eich manylion neu osodiadau, rydyn ni'n gofyn am ychydig o wybodaeth bersonol, fel eich cyfeiriad e-bost a'ch oedran.

b. Gwybodaeth am ddyfeisiau

Mae dyfais yn nifer o bethau, fel:

- eich cyfrifiadur
- eich ffôn symudol
- eich teledu
- eich tabled
- eich dyfais a reolir â llais

[Rydyn ni'n casglu peth gwybodaeth dechnegol o'r dyfeisiau a porwyr](#)

[gwe](#) yma beth bynnag, hyd yn oed pam nad ydych chi wedi

mewngofnodi i [gyfrif BBC](#). Gall hyn gynnwys:

- cyfeiriad IP (internet protocol)
- ID y ddyfais
- ID yr ap
- ID y gwerthwr
- ID yr hysbysebwr

c. Gwybodaeth am eich gweithgareddau tu allan i'r BBC pan rydych chi'n siarad amdanon ni

Os ydych chi wedi sôn amdanon ni mewn neges Twitter, byddwn ni'n casglu eich enw Twitter.

d. Gwybodaeth am sut rydych chi'n defnyddio ein gwasanaethau

Fel yr [erthyglau rydych chi'n eu darllen a'r rhaglenni rydych chi'n eu gwyllo.](#)

5. Am ba mor hir fydd y BBC yn cadw fy ngwybodaeth bersonol?

Pan rydych chi'n rhoi unrhyw wybodaeth bersonol i ni, byddwn ni'n [gadael i chi wybod am ba mor hir byddwn ni'n ei chadw](#). A bob amser yn cadw at yr egwyddorion yma:

- rydyn ni ond y dal eich gwybodaeth am mor hir ag ydyn ni'n gwneud y gweithgareddau sonion ni wrthoch chi amdanyn nhw neu os oes gennym ni [reswm dilys](#) dros ei chadw
- rydyn ni'n meddwl am sut fath o wybodaeth ydyw, faint a gasglwyd, pa mor sensitif y gallai fod ac unrhyw anghenion cyfreithiol
- rydyn ni'n cynllunio [ein gwasanaethau](#) fel nad ydyn ni'n dal eich gwybodaeth am hirach na sydd raid i ni
- efallai y byddwn ni'n cau eich cyfrif BBC os nad ydych chi wedi ei ddefnyddio yn y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn ni'n anfon e-bost atoch chi i ddweud ein bod ni'n bwriadu gwneud hyn cyn i ni ddileu unrhyw beth, felly ewch i'ch mewnlwch i weld os ydyn ni wedi anfon unrhyw e-byst ynglŷn â hyn.

6. Sut gallai'r BBC ddefnyddio fy ngwybodaeth bersonol?

Mae'n rhaid bod gennym ni reswm dilys dros ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol, sef "sail gyfreithiol dros brosesu". Weithiau, efallai y byddwn ni'n gofyn am eich caniatâd i wneud pethau, fel pan rydych chi'n [cofrestru am e-bost](#). Dro arall, mae'n rhesymol i chi ddisgwyl ein bod ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol, nid ydyn ni'n gofyn am eich caniatâd, heblaw:

- pan mae'r gyfraith yn dweud ei bod hi'n iawn i'w ddefnyddio, ac
- mae'n unol â'ch [hawliau](#)

Rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer y pethau yma:

- a. darparu ein gwasanaethau ac i roi gwybodaeth i chi amdanyn nhw**
- b. ymateb i'ch ceisiadau, cwynion a chwestiynau**
- c. gweld os ydych chi'n defnyddio BBC iPlayer ac i ddiweddarau'r bas-data trwyddedu**
- ch. personoleiddio gwasanaethau a rhoi mwy o bethau i chi sydd wedi eu teilwra**

Mae eich cyfrif BBC yn eich caniatáu i bersonoleiddio eich profiad o BBC ar-lein. Er mwyn gwneud hynny, rhaid troi 'Allow Personalisation' ymlaen wrth i chi greu eich cyfrif. Os ydych chi o dan 13 ac yn creu eich cyfrif, mae personoleiddio wedi ei ddiffodd. Mae gwybodaeth ynglŷn â sut ydych chi'n defnyddio ein gwasanaethau ar-lein yn cael eu gysylltu gyda gwybodaeth eraill rydych chi'n ei rhoi i ni, er mwyn teilwra eich profiad.

Os nad ydych chi eisiau i ni wneud hyn, gallwch [ddiffodd](#) [personoleiddio](#) yng ngosodiadau eich cyfrif. Os ydych chi o dan 13, nid oes angen i chi wneud dim byd.

- d. dangos [hysbysebion perthnasol](#) i chi ar safle cwmni arall**
- dd. ein helpu ni i ddeall sut fath o wasanaethau mae'n bosib y byddwch yn eu defnyddio**

Ac weithiau sut y gallwch rannu pethau â phobl eraill

- e. [argymell pethau](#) rydyn ni'n meddwl fyddai o ddiddordeb i chi**
- f. dangos hysbysebion pan rydych chi'n defnyddio gwasanaeth gan y BBC o tu allan i'r DU**

Gall peth o'r hysbysebu yma fod wedi cael ei [deilwra ar eich cyfer chi](#).

ff. ymchwilio ac arloesi

Dydych chi ddim yn foch cwta, ond [gallai gwybod sut rydych chi'n defnyddio ein gwasanaethau](#) arwain at y datblygiad technolegol mawr nesaf.

- g. [cysylltu â chi](#) ynglŷn ag amryw bethau**

7. Pryd fydd y BBC yn defnyddio fy ngwybodaeth i gysylltu â mi?

Efallai y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth i gysylltu â chi ynglŷn â phethau gwahanol, fel:

- eich diweddarau am unrhyw newidiadau i bolisiâu, arferion a [Thelerau Defnyddio'r](#) BBC.
- unrhyw wasanaeth neu weithgaredd rydych chi wedi cofrestru ar ei gyfer. Er enghraifft, efallai y byddwn ni'n dweud wrthoch chi nad yw eich [cyfrif BBC wedi cael ei ddefnyddio ers amser hir](#). Neu efallai byddai'n ymwneud â [chreu cyfrif plentyn](#)
- creadigaeth rydych chi wedi ei anfon atom ni, fel pethau rydych chi wedi ei anfon ar ddiwrnod Bwletin Ysgol
- anfon ymateb pan rydych chi wedi cysylltu â ni, neu i ymateb i sylw neu gwyn
- eich gwahodd i gymryd rhan mewn holiaduron ynglŷn â gwasanaethau'r BBC, sydd bob amser yn wirfoddol
- am [resymau marchnata](#)
- anfon hysbysiadau at eich dyfais, yn dibynnu ar [eich gosodiadau](#)

Byddwn ond yn cysylltu â chi pan rydyn ni angen gwneud hynny neu pan rydych chi wedi rhoi caniatâd i ni wneud.

Fyddwn ni byth yn cysylltu â chi i ofyn am [eich cyfrinair i'ch cyfrif BBC](#).

8. Fyddwch chi'n cysylltu â mi am resymau marchnata?

Byddwn ond yn anfon [e-byst marchnata](#) neu gysylltu â chi ynghyd â rhaglenni neu wasanaethau'r BBC, a'ch barn am faterion yn ymwneud â'r BBC os ydych chi wedi cytuno i hyn.

Cofiwch, hyd yn oed os ydych chi'n dad-danysgrifio, gallwn dal [gysylltu â chi](#).

A fydd fy manylion personol yn cael eu defnyddio pan mae'r BBC yn hysbysebu gyda chwmnïoedd eraill?

Os oes gennych chi [gyfrif BBC](#), efallai y byddwn ni'n defnyddio gwybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi i ddangos [hysbysebion wedi eu targedu](#) ar gyfer gwasanaethau'r BBC drwy safleoedd cwmnïoedd eraill, fel Facebook, Google, Snapchat neu Twitter er enghraifft. Gallai hyn fod yn dangos neges wedi ei noddi gan y BBC i

chi pan rydyn ni'n gwybod fod gennych chi gyfrif BBC ac wedi defnyddio gwasanaethau'r BBC.

Os nad ydych chi eisiau gweld hysbysebion o'r fath, gallwch newid gosodiadau eich cyfryngau cymdeithasol. Gallwch hefyd ymweld â'ch cyfrif BBC a [diffodd hyn](#).

9. Pryd mae'r BBC yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol ag eraill?

Fyddwn ni byth yn gwerthu eich gwybodaeth bersonol. Rydyn ni'n ei rhannu ag eraill:

a. Pan rydych chi'n gwneud rhywbeth yn gyhoeddus

Fel [cyhoeddi sylw](#) gall y cyhoedd ei weld.

b. Pan rydyn ni'n defnyddio cwmnïoedd eraill i gynnal ein gwasanaethau

Er mwyn i ni roi profiadau o safon i chi ac i ddeall sut rydych chi'n defnyddio ein gwasanaethau, rydyn ni'n aml yn defnyddio cwmnïoedd eraill i brosesu eich [gwybodaeth bersonol](#) ar ein rhan. Er enghraifft, anfon e-byst atoch chi ynglŷn â phethau rydyn ni'n

meddwl fyddai o ddi-ddordeb i chi, i ofyn beth rydych chi'n ei feddwl am ein gwasanaethau, neu i ddadansoddi data ynglŷn â sut mae pobl yn defnyddio ein gwasanaethau digidol er mwyn i ni eu gwella.

Rydyn ni'n sicrhau fod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei gwarchod yn union fel petaen ni'n delio â'r wybodaeth yn uniongyrchol. Rydyn ni'n dewis y cwmnïoedd yma yn ofalus, ddim ond yn rhannu beth maen nhw ei angen er mwyn gwneud y gwaith ac rydyn ni'n sicrhau eu bod yn [cadw eich gwybodaeth yn ddiogel](#).

c. [Pan rydyn ni'n rhannu gwybodaeth bersonol gyda cwmnïoedd o fewn teulu'r BBC](#)

ch. [Pan rydych chi'n defnyddio gwasanaeth cwmni arall](#) sydd yn cysylltu â ni, fel dyfeisiau a reolir â llais a theledu clyfar

Gallwch gael mynediad at ein gwasanaethau drwy ddyfais a reolir â llais, e.e. Amazon Alexa, neu deledu clyfar. Mae'n rhaid i chi fewngofnodi i'ch [cyfrif BBC](#) er mwyn defnyddio gwasanaethau'r BBC ar eich teledu clyfar. Pan ydych chi'n gwneud hyn, byddwn yn rhannu gwybodaeth sy'n adnabod eich cyfrif BBC gyda'r cwmni sydd yn cynnal y gwasanaeth rydych chi'n ei ddefnyddio. Gwiriwch bolisi preifatrwydd y cwmni, fel eich bod yn gwybod sut y bydd yn

defnyddio eich gwybodaeth. Nid yw'r BBC yn gyfrifol pan ydych chi'n defnyddio un o wasanaethau'r BBC drwy gwmni arall. Eich dewis chi yw os hoffech chi ddefnyddio'r BBC fel hyn.

d. Pan rydyn ni'n gwneud gwaith ymchwil ar y cyd

Rydyn ni'n cynnal gweithgareddau ymchwil ac weithiau yn cydweithio gyda phartneriaid ymchwil. O dro i dro, rydyn ni'n rhannu ein [cynnwys](#) a data gyda nhw. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth rydyn ni wedi ei chasglu amdanoch chi. Ond rydyn ni'n ofalus am beth rydyn ni'n ei rannu a beth gallai ein partneriaid ymchwil ei wneud ag ef.

dd. Trwyddedu Teledu

Rydyn ni'n rhannu peth gwybodaeth bersonol gyda [Thrwyddedu Teledu](#), er mwyn gweld os ydych chi'n defnyddio BBC iPlayer ac i ddiweddarau'r bas-data trwyddedu.

e. Weithiau, yn gyfreithiol, maen rhaid i ni rannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau eraill

Efallai byddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth os oes rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith, neu pan rydyn ni angen eich amddiffyn chi neu eraill rhag niwed.

10. Beth yw'r gwahaniaeth ar gyfer plant a rhai yn eu harddegau?

Mae gan y BBC wasanaethau sy'n addas ar gyfer plant a rhai yn eu harddegau.

Dyma beth sy'n digwydd pan rydych chi'n eu defnyddio.

a. Pam ydyn ni'n casglu gwybodaeth amdanoch chi yn y lle cyntaf?

Rydyn ni'n cadw gwybodaeth amdanoch chi fel y gallwn:

- [roi'r gwasanaeth gorau i chi](#)
- [gynllunio a gwella ein gwasanaethau](#)
- [gadw mewn cysylltiad gyda chi](#)

b. Byddwn ni bob amser yn dweud wrthoch chi pam rydyn ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol

Byddwn ni'n egluro pam a sut byddwn ni'n ei defnyddio ac am ba mor hir, sef "rhybudd preifatrwydd". Ac os ydyn ni [angen caniatâd rhiant neu warchodwr](#), byddwn ni'n rhoi manylion eglur ynglŷn â beth sydd ei angen.

c. Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol os oes gennym ni [reswm dilys](#)

ch. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi gydag eraill ond rydyn ni'n [dilys rhai rheolau](#)

Y prif reol yw na fyddwn ni byth yn gwerthu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw un.

d. Efallai y gofynnwn ni am eich oedran

Er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn defnyddio rhannau o'r BBC sy'n addas ar eich cyfer chi. Er enghraifft:

- fel bod oedolion ddim yn [cyhoeddi negesuon](#) ar fyrddau negeseuon plant
- pan rydych chi eisiau [cael cyfrif BBC](#)
- pan rydych chi'n gwyllo rhaglen, fel ar BBC iPlayer, ac mae'n yn anaddas

dd. Weithiau byddwn ni'n gofyn i chi am ganiatâd rhiant neu warchodwr

Byddwch chi'n cael hysbysiad. Gallwn hefyd ofyn am ychydig o fanylion ganddyn nhw, fel y gallwn ni gysylltu â nhw. Dro arall, byddwn ni'n cysylltu â'ch rhiant neu warchodwr:

- er mwyn i chi allu [derbyn hysbysiadau](#) gennym ni
- er mwyn i ni ddangos mwy o bethau i chi [rydyn ni'n meddwl fyddech chi'n eu hoffi](#), wedi ei seilio ar beth rydych chi'n ei wneud
- er mwyn i chi allu cyhoeddi sylwadau
- er mwyn i chi uwchlwytho cyfraniad i ni

e. Weithiau byddwn ni'n sôn am eich gweithgareddau wrth eich rhieni

Er enghraifft, os ydych chi'n ymgeisio yn un o'n cystadlaethau, efallai y byddwn ni'n cysylltu â'ch rhiant.

f. Pryd gallwn gysylltu â chi

Weithiau byddwn angen cysylltu â chi, ond byddwn ni bob amser yn dilyn y [rheolau yma](#).

ff. Mae hi'n ddiogel i'n defnyddio ni

Ein swydd yw i [gadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel](#). Dyna pam rydyn ni'n cynllunio ein gwasanaethau gyda'ch diogelwch mewn golwg. Ac rydyn ni bob amser yn edrych am y ffyrdd gorau i wella hyn.

Mae yna hefyd [bethau allwch chi ei wneud i gadw'n ddiogel](#), fel [meddwl am ba wybodaeth rydych chi'n ei rhannu](#) a sut i gadw eich dyfeisiau'n ddiogel.

g. Bodau dynol ac [nid robotiaid](#) fydd yn gwneud y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi

ng. Efallai na fyddwch chi'n gallu defnyddio ein gwasanaethau os ydych chi tu allan i'r DU

Os ydych chi tu allan i'r DU, efallai na fyddwch chi'n gallu defnyddio rhai o'r gwasanaethau. Fel CBBC a CBeebies.

Ac efallai na fyddwch chi'n gallu cael cyfrif BBC. Mae'n ddrwg gennym am hyn.

h. Chi sy'n rheoli sut rydyn ni'n defnyddio cwcis a thechnolegau olrhain

Cwcis yw ffeiliau testun bychan sydd yn cael eu trosglwyddo i'ch dyfais pan ydych chi'n defnyddio gwasanaeth.

Rydyn ni'n defnyddio cwcis a thechnolegau olrhain er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â sut fath o ddyfais rydych chi'n ei ddefnyddio ac rydyn ni'n cofnodi pethau fel pa wefannau rydych chi'n ymweld â nhw, eich cyfeiriad IP (rhif unigryw mae eich dyfais yn ei greu pob tro

rydych chi'n cysylltu â'r we) ac er mwyn [gwneud pethau'n haws i chi](#), fel cofio lle wnaethoch chi gyrraedd mewn gêm neu pa emoji wnaethoch chi ei ddewis.

Gallwch chi [ddiffodd rhai cwcis](#) a thechnolegau olrhain tebyg. Neu gall eich rhiant neu warchodwr wneud hyn os ydych chi o dan 13.

Ond allwch chi ddim diffodd rhaid cwcis.

i. Beth rydyn ni'n ei wneud pan rydych chi'n cyhoeddi, uwchlwytho neu rannu creadigaeth

Pan rydych chi'n rhannu eich creadigaeth gyda ni, fe [fyddwn ni'n ceisio dweud yn union beth rydyn ni am ei wneud gydag ef](#).

I. Mae gennych chi [hawliau preifatrwydd](#), yn union fel oedolion, felly dysgwch beth ydyn nhw

Gallwch:

- ofyn i ni pa [wybodaeth bersonol sydd gennym ni](#) amdanoch chi
- ofyn i ni [i gywiro](#) neu [ddileu eich gwybodaeth bersonol](#)
- ddweud wrthym ni i [stopio defnyddio eich gwybodaeth bersonol](#)

Os ydych chi'n 13 neu'n hŷn, gallwch wneud hyn eich hun, ond nid bob tro. Weithiau byddwn ni'n gofyn i'ch rhiant neu warchodwr i wneud hyn.

Os ydych chi o dan 13, mae'n debyg fod rhaid i'ch rhiant neu warchodwr wneud hyn i chi.

11. Ga i ddileu fy ngwybodaeth?

Mae hyn yn dibynnu am ba wybodaeth rydych chi'n sôn.

a. Os ydych chi'n sôn am gyfrif BBC

Gallwch [ddileu eich cyfrif](#). Mae manylion eich cyfrif yn cael eu dileu yn syth. Cofiwch:

- rydyn ni'n cadw cofnod o sut rydych chi wedi defnyddio ein gwasanaethau, ond ni all y wybodaeth gael ei gysylltu â chi
- rydyn ni hefyd yn cadw unrhyw beth rydych chi wedi ei uwchlwytho neu wneud sylw arno

b. Beth am wybodaeth arall rydw i wedi ei rhannu â chi?

Efallai y byddwn ni wedi casglu gwybodaeth bersonol arall amdanoch chi y [gallwch ofyn i ni ei dileu](#), sydd â dim i'w wneud â'ch cyfrif BBC.

12. Beth yw fy hawliau?

Cofiwch, chi sydd yn rheoli eich gwybodaeth bersonol.

[Mae gennych chi'r hawl:](#)

- [i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth](#)
- [i beidio â gadael i robotiaid wneud penderfyniadau mawr ynglŷn â chi](#)
- i ofyn i ni gywiro gwybodaeth sy'n anghywir, ei dileu neu i wneud cais ei bod ond yn cael ei defnyddio am resymau penodol
- i newid eich meddwl, a gofyn i ni stopio defnyddio eich gwybodaeth. Er enghraifft, [dad-danysgrifio o e-byst marchnata](#) neu [ddiffodd personoleiddio](#)

Cofiwch, weithiau fyddwn ni ddim yn gallu helpu. Fel os yw'r gyfraith yn ein hatal neu os yw'n ffurfio rhan o'n cynnwys newyddiadurol.

13. Sut mae'r BBC yn defnyddio cwcis a thechnolegau olrhain tebyg?

a. Beth yw cwcis a thechnolegau olrhain?

Cwcis yw ffeiliau testun bychan sydd yn cael eu trosglwyddo i'ch dyfais neu ffôn symudol pan ydych chi'n defnyddio gwasanaeth neu ap.

Rydyn ni hefyd yn [casglu darnau tebyg o wybodaeth olrhain](#)

b. Pam ydyn ni'n [defnyddio cwcis a thechnolegau olrhain eraill](#)?

I wneud ychydig o bethau gwahanol:

- i gofio gwybodaeth amdanoch chi, fel nad oes rhaid i chi ei rhoi i ni eto. Ac eto. Ac eto
- i'ch cadw wedi mewngofnodi, hyd yn oed ar ddyfeisiau gwahanol
- i'n helpu i ddeall sut mae pobl yn defnyddio ein gwasanaethau, fel ein bod ni'n gallu eu gwella
- i gynnig hysbysebion i wefannau tu allan i'r DU

- i'n helpu i bersonoleiddio'r BBC ar eich cyfer chi drwy gofio eich dewisiadau a gosodiadau. A lle wnaethoch chi gyrraedd mewn rhaglen er mwyn ail-ddechrau gwylio, hyd yn oed ar ddyfais gwahanol.
- i weld os yw ein e-byst wedi cael eu darllen ac os ydych chi'n meddwl eu bod yn ddefnyddiol

c. Beth yw'r mathau gwahanol o gwcis?

Mae rhai cwcis bob amser ymlaen pan ydych chi'n ymweld â ni, a gallwch chi ddim eu diffodd oni bai eich bod chi'n newid gosodiadau eich porwr. Rydyn ni'n galw rhain yn ["cwcis sydd wir eu hangen"](#). Rydyn ni'n eu defnyddio er mwyn sicrhau fod ein gwasanaethau digidol yn gweithio'n gywir ac yn cwrdd â gofynion a diddordebau'n gynulleidfa.

Rydyn ni hefyd yn defnyddio [cwcis swyddogaethol, perfformiad a hysbysebu](#) er mwyn gwneud y profiad yn un gwell. Gallwch droi rhai ymlaen neu eu diffodd, a [gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd](#). Byddwn ond yn eu defnyddio os ydych chi'n cytuno i hynny.

Cofiwch fod yna gwcis eraill o gwmpas y lle gan gwmnïoedd eraill. Gallai'r "[cwcis trydydd parti](#)" yma olrhain sut rydych chi'n defnyddio gwefannau gwahanol, yn cynnwys ein un ni. Er enghraifft, efallai gewch chi gwci gan gwmni cyfryngau cymdeithasol pan welwch chi'r opsiwn i rannu rhywbeth. [Gallwch eu diffodd](#), ond drwyddyn nhw, nid ni.

d. Am ba mor hir mae cwcis yn para'?

Mae rhai yn cael eu dileu pan rydych chi'n cau'r porwr ar eich gwefan neu ap. Mae rhai yn [aros yn hirach](#), weithiau am byth, ac yn cael eu cadw ar eich dyfais fel eu bod yna pan rydych chi'n dychwelyd.

ch. Sut ydw i'n rheoli fy nghwcis a thechnolegau olrhain?

Bydd cwcis sydd wir eu hangen bob amser ymlaen pan ydych chi'n ymweld â ni. Ar eich ymweliad cyntaf â ni, byddwn ni'n dweud wrthoch chi am ein cwcis a gofyn i chi ddewis pa gwcis allwn ni eu defnyddio. Gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd drwy [fynd i'ch gosodiadau](#).

Byddai stopio pob cwci efallai yn golygu nad oes gennych chi fynediad at rai gwasanaethau'r BBC, neu y byddai rhai ddim yn gweithio'n iawn i chi.

Ffordd arall i reoli technolegau olrhain yw yng ngosodiadau eich dyfais.

14. Sut fydda i'n cael gwybod am newidiadau i'r polisi yma?

Rydyn ni'n diweddarau'r polisi yma weithiau. Os ydyn ni'n gwneud newidiadau pwysig, fel sut rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth bersonol, byddwn yn dweud wrthoch chi. Gall fod yn rybudd, e-bost neu neges yn eich ap.

Os nad ydych chi'n cytuno â'r newidiadau, gallwch stopio defnyddio ein gwasanaethau, [dileu eich cyfrif](#) a stopio rhoi mwy o wybodaeth bersonol i ni. Byddwn ni'n drist eich gweld chi'n mynd.

15. Sut alla i gysylltu â'r BBC?

Dysgwch fwy a [chysylltu â ni ynglŷn â'ch hawliau](#).

Am unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill ynglŷn â'r polisi yma, siaradwch â'n Swyddog Diogelu Data.

- [ar e-bost](#)

- drwy'r post

BBC DPO, BC2 A4, 201 Wood Lane, London W12 7TP

Rydyn ni'n cael ein rheoleiddio gan [Swyddfa'r Comisiynydd](#)

[Gwybodaeth](#). Gallwch hefyd gysylltu â nhw am gyngor a chefnogaeth.

© BBC 2019